TÂL AELODAETH 2014-15: £16. Cedwir £3 o bob £16 gan y clwb.

[Bydd y Trysorydd Rhanbarth yn gofyn i Drysorydd y Clwb am y tâl aelodaeth, fel arfer erbyn diwedd y flwyddyn neu dechrau'r flwyddyn newydd.

Mae'r dyddiad yn amrywio o Ranbarth i Ranbarth ond caiff Trysorydd y clwb wybod mewn da bryd]

1. CYFRANNU AT ACHOSION DA

- Gellir cyfrannu at achos da sy’n cyd-fynd â’n cyfansoddiad.
- Ar y cyfan, cyfrannu at Achosion Menywod a / neu’r Iaith Gymraeg. Er enghraifft, Mudiad Ysgolion Meithrin, Papurau Bro, Eisteddfodau sy’n elusennau, afiechydon menywod ayyb. Am ragor o fanylion ffoniwch y Swyddfa ar 01970 611661.

Cyfrannu at Elusennau

2. HYSBYSEBU’R CLWB

- Mae’n bwysig bod y clwb yn cael ei hysbysebu yn y wasg lleol, y Wawr, radio a.y.y.b. a thrwy dynnu lluniau o wahanol weithgareddau

3. ETHOL SWYDDOGION NEWYDD YN FLYNYDDOL
- Dylid gwneud hyn cyn yr hâf, yn ddelfrydol canol mis Mai
- Dylid anfon yr enwau yn brydlon i’r Ganolfan Genedlaethol (derbynnir ffurflen bwrpasol)

4. CYD-WEITHIO GYDA CHANGHENNAU MyW LLEOL

- Cyd-weithio gyda’r gangen / canghennau lleol wrth sefydlu’r Clwb
- Gellir rhoi gwahoddiad i gangen o Ferched y Wawr ymuno â’r clwb unwaith y flwyddyn.

5.GWEITHGAREDDAU CENEDLAETHOL

- Bydd gwahoddiad i ymuno mewn unrhyw weithgareddau /pwyllgorau /cystadlaethau mae Merched y Wawr yn eu cynnig yn Rhanbarthol neu’n Genedlaethol.

6.CANLLAWIAU I'R TRYSORYDD

- Agor Cyfrif Banc : Rhif Elusen y Mudiad yw : 506789 – i’w gynnwys ar y Llyfr Sieciau a phob gohebiaeth. Bydd angen dau enw cyswllt i lofnodi’r sieciau. Swyddog Cyllid yn Swyddfa Merched y Wawr yw Miriam Garratt : (01970 611661) Llyfr Cyfrifon Merched y Wawr (Llyfr Glas): Wrth ddechrau'r clwb newydd byddwch yn derbyn "Llyfr Glas". Mae'n bwysig iawn defnyddio hwn am eich holl gyfrifon.

- Y Trysorydd i gasglu Tâl Aelodaeth gan yr aelodau. Mae’n bwysig bod y tâl aelodaeth yn cael ei anfon at y Trysorydd Rhanbarth erbyn y dyddiad y gofynnir amdano, fel afer diwedd y flwyddyn neu dechrau Ionawr. Bydd y clwb yn derbyn ffurflen bwrpasol at y gwaith gan y Trysorydd Rhanbarth

- Ar ôl derbyn y ffurflen berthnasol gan y Trysorydd Rhanbarth, bydd Trysorydd y clwb yn anfon manylion am holl gyfrifon y clwb (mantolen) at y Trysorydd Rhanbarth   erbyn diwedd Medi. . Mae’n bwysig anfon y tâl aelodaeth a’r fantolen yn brydlon.

7. CAU CLWB

OS MAE CLWB YN CAU YNA RHAID ANFON DATGANIAD TERFYNOL Y BANC I'R SWYDDFA, DYCHWELYD Y £100 A GAETHOCH AR OL DECHRAU'R CLWB: £50 I'R CYFRIF CENEDLAETHOL A £50 I'R PWYLLGOR RHANBARTH, A THROSGLWYDDO UNRHYW ARIAN SY'N WEDDILL I'R PWYLLGOR RHANBARTH LLEOL.